- 2016

**CYNGOR SIR *POWYS* COUNTY COUNCIL.**

**GWEITHREDIAETH Y CABINET**
**24 Mai 2016**

| | |
|---|---|
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **Cynghorydd Sir Arwel Jones**<br>**Aelod Portffolio Addysg** |
| **PWNC:** | **Ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dolafon** |
| **ADRODDIAD AR GYFER:** | **Penderfyniad** |

## Crynodeb

Ymhellach at y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar y 22 Mawrth 2016, cyhoeddwyd Rhybudd Statudol gan yr awdurdod i derfynu'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dolafon, Llanwrtyd a newid categori iaith yr ysgol o ysgol ddwy ffrwd i ysgol cyfrwng Saesneg. Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar y 7 Ebrill 2016.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar ganlyniad y cyfnod gwrthwynebu statudol, ac yn cynnwys argymhelliad i derfynu'r ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dolafon o'r 31 Awst 2016.

## Cefndir

### Ymgynghoriad Ffurfiol

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â chau'r ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dolafon yn unol â'r gofynion o fewn Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) o'r 8 Ionawr 2016 hyd at y 19 Chwefror 2016. Cafodd Adroddiad Ymgynghori sy'n rhestru'r holl faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac ymateb yr awdurdod iddynt ei ystyried gan y Cabinet ar y 22 Mawrth 2016.

### Rhybudd Statudol

Ymhellach at y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar y 22 Mawrth 2016, cyhoeddwyd Rhybudd Statudol gan yr awdurdod i derfynu'r ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dolafon ar y 7 Ebrill 2016 ar gyfer cyfnod o 28 diwrnod, yn unol â'r cyfarwyddyd o fewn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Ni dderbyniwyd gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

## Cynnig

Gan na dderbyniwyd gwrthwynebiadau yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, argymhellir y bydd y ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dolafon yn cael ei therfynu o'r 31 Awst 2016. Byddai darpariaeth Cyfrwng Cymraeg arall i ddisgyblion a wasanaethir ar hyn o bryd gan y ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dolafon yn cael ei gynnig yn Ysgol G G Llanfair-ym-Muallt, sy'n ysgol gynradd ddwy ffrwd. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion yn unol â Pholisi Cludiant yr awdurdod o'r Cartref i'r Ysgol.

Amcangyfrifir y bydd cau'r ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dolafon yn arwain at arbedion blynyddol o £17,271.

## Cynllun Powys yn Un

Mae 'Trawsnewid Dysgu a Sgiliau' yn flaenoriaeth allweddol o fewn Cynllun Powys yn Un, a nod yr Awdurdod yw sicrhau fod pob 'plentyn ac unigolyn ifanc yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial'. Mae'r cynllun yn nodi fod yr Awdurdod angen 'aildrefnu ysgolion (cynradd, uwchradd ac ôl-16) i sicrhau fforddiadwyedd, cynaliadwyedd a gallu priodol o ran arweinyddiaeth'.

## Opsiynau a Ystyriwyd/sydd ar Gael

D/G

## Y Dewis a Ffafrir a'r Rhesymau

D/G

## Materion Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol/Cydraddoldeb/Trosedd ac Anrhefn/Yr Iaith Gymraeg/Polisïau eraill ac ati

Lluniwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynnig ac fe'i hystyriwyd gan y Cabinet ar yr 22 Mawrth 2016 wrth ystyried i beidio â chyhoeddi'r Rhybudd Statudol ai peidio mewn perthynas â therfynu'r ffrwd Cyfrwng Cymraeg.

Cafodd Asesiad Effaith Cymunedol ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg mewn perthynas â'r cynnig hwn eu cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori. Cafodd nifer o faterion eu codi sy'n ymwneud ag effaith y cynnig ar y gymuned a'r Iaith Gymraeg yn yr ymatebion ymgynghori. Rhestrwyd y rhain yn y Ddogfen Ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig hwn, ynghyd ag ymateb yr awdurdod iddynt.

**Datganiad Effaith Plant a Phobl ifanc – Diogelu a Lles**

Bwriad Rhaglen Trawsnewid Ysgolion yr Awdurdod yw gwella deilliannau addysgol i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dyhead i wella diogelwch a lles i blant a phobl ifanc.

**Aelod(au) Lleol**
(Esboniwch a yw'r cynnig yn cael effaith benodol neu arwyddocâd ai peidio ar gyfer dim ond un neu ran o'r rhanbarthau etholiadol (o'i gymharu â'i gymhwyso gyda'r un effaith ar draws y Sir gyfan), ac, os felly, nodwch safbwyntiau Aelod(au) Lleol y rhanbarth etholiadol yma/rhanbarthau etholiadol hyn)

**Gwasanaethau Rheng Flaen Eraill**

D/G

**Gwasanaethau Cefnogi (Cyfreithiol, Cyllid, Eiddo Corfforaethol, Adnoddau Dynol, TGCh, Gwasanaethau Busnes)**

Cyfreithiol: Mae'r Arweinydd Proffesiynol – Y Gyfraith wedi rhoi'r sylwadau canlynol: Dilynwyd y broses o ymgynghori ffurfiol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgol 2013 Llywodraeth Cymru, ac mae cau ffrwd cyfrwng Cymraeg Ysgol Dolafon yn unol â blaenoriaethau cyfredol yr Awdurdod Lleol.

Cyllid: Gallaf gadarnhau'r amcangyfrif o arbedion yn yr adroddiad o £17,271 yn cynnwys costau cludiant. Nid oes unrhyw gostau colli swyddi wedi'u cynnwys yn y ffigyrau. Bydd yr adran gyllid yn parhau i weithio gyda'r ysgol i reoli'r newidiadau a fydd yn codi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cynllun Cyllido Ysgolion i bennu cyllideb gytbwys.

Adnoddau Dynol: Bydd unrhyw faterion sy'n ymwneud â staff yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol yr ysgolion dan sylw.

**Bwrdd Gwasanaeth Lleol/Partneriaethau/Rhanddeiliaid ac ati**

D/G

**Cyfathrebu Corfforaethol**

Sylwadau Cyfathrebu: Mae'r adroddiad o ddiddordeb cyhoeddus a bydd angen defnyddio datganiadau i'r wasg a chyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i'r penderfyniad.

**Swyddogion Statudol**

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau (Swyddog S151) yn nodi'r sylwadau a wnaed gan yr Adran Gyllid.

Mae'r Arweinydd Proffesiynol – Y Gyfraith (Dirprwy Swyddog Monitro) wedi gwneud y sylwadau a ganlyn: "Yr wyf wedi nodi'r sylwadau cyfreithiol ac nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at yr adroddiad."

## Diddordebau Aelodau

Nid yw'r Swyddog Monitro yn ymwybodol o unrhyw ddiddordebau penodol a all godi mewn perthynas â'r adroddiad hwn. Os oes gan aelodau ddiddordeb, dylent eu datgan ar ddechrau'r cyfarfod a llenwi'r ffurflen hysbysu berthnasol.

| **Argymhelliad:** | **Rheswm dros yr Argymhelliad:** |
|---|---|
| Cymeradwyo terfynu'r ffrwd Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Dolafon a newid y categori iaith o Ysgol Ddwy Ffrwd i Ysgol Cyfrwng Saesneg o'r 31 Awst 2016. | Sicrhau cynaliadwyedd addysg gynradd yn y dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Polisi (au) Perthnasol:** | Polisi Trawsnewid Ysgolion, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg | | |
| **O fewn Polisi:** | Y | **O fewn y Gyllideb:** | Y |

| | |
|---|---|
| **Aelod(au) Lleol Perthnasol:** | **Cyng. T J Van-Rees** |

| | |
|---|---|
| **Unigolyn (Unigolion) i Weithredu Penderfyniad:** | Tîm Trawsnewid Ysgolion |
| **Dyddiad erbyn Pryd y mae'r Penderfyniad i'w Weithredu** | 31 Awst 2016 |

| Enw Swyddog Cyswllt: | Ffôn: | Ffacs: | E-bost: |
|---|---|---|---|
| Sarah Astley | 01597 826265 | D/G | sarah.astley@powys.gov.uk |

**Papurau Cefndir a ddefnyddir i lunio Adroddiad:**